OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1990

## Rheoliadau Microsglodynnu Cŵn (Cymru) 2015

**Manylion sydd i'w cofnodi mewn cronfeydd data**

**5.**—(1) Y manylion sydd i'w cofnodi mewn cronfa ddata yw'r canlynol—

(a) enw a chyfeiriad llawn y ceidwad;

(b) os yw'n gymwys, y ffaith mai'r ceidwad yw'r bridiwr yn ogystal;

(c) os y ceidwad yw'r bridiwr ac yntau wedi ei drwyddedu gan Reoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014 (**1**)—

(i) rhif trwydded y bridiwr; a

(ii) enw'r awdurdod lleol y'i trwyddedwyd ganddo;

(d) yr enw neu'r rhif adnabod gwreiddiol a roddwyd i'r ci;

(e) y rhif teleffon cyswllt (os oes un) ar gyfer y ceidwad;

(f) y cyfeiriad e-bost (os oes un) ar gyfer y ceidwad;

(g) yr enw a roddwyd i'r ci gan y ceidwad, os yw'n wahanol i'r manylion a gofnodwyd yn unol ag is-baragraff (d);

(h) rhyw y ci;

(i) brid y ci, neu ddisgrifiad ohono os yw'n gi croesfrid;

(j) lliw y ci;

(k) unrhyw nodweddion neilltuol i'r ci;

(l) yr amcangyfrif gorau posibl y gall y ceidwad ei roi o ddyddiad geni'r ci; ac

(m) rhif unigryw'r microsglodyn a fewnblannwyd yn y ci.

(2) Yn y rheoliad hwn, ystyr "bridiwr" ("*breeder*") yw ceidwad unrhyw ast sy'n rhoi genedigaeth, pa un a yw'n cynnal busnes fel bridiwr cŵn ai peidio.

(**1**) O.S. 2014/3266 (Cy. 333).